26-Apr-06

Ffurflen gais a nodiadau am sut i wneud cais

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer rhinitis alergaidd

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

Darllenwch y nodiadau hyn cyn i chi lenwi'r ffurflen hon.

- **Ynglŷn â'r cais hwn**
- **Ynglŷn â'r budd-dal hwn**
- **Arian arall y gallech chi ei gael**
- **Help a chyngor**
- **Help gyda cwblhau'r ffurflen gais hon**

Ynglŷn â'r cais hwn

Gellir talu'r budd-dal y gallwch ei gael o ganlyniad i'r cais hwn yn gynt os atebwch bob cwestiwn ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi ac i'ch partner, os oes un gennych.

Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni ond efallai y bydd oedi wrth dalu'r budd-dal y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn.

Ystyr *partner* yw'r

- person rydych yn briod â hwy, neu'r person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- partner sifil neu person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

Ynglŷn â'r budd-dâl hwn

Efallai y gallwch gael Budd-dâl Anabledd Anafiadau Diwydiannol os oes gennych rhinitis alergaidd oherwydd eich gwaith tra'n gweithio i gyflogwr. Ni allwch gael y budd-dal hwn os oeddech yn hunan-gyflogedig yn y gwaith a achosodd eich afiechyd.

Cyn i chi lenwi'r ffurflen hon, darllenwch daflen **SD6** *sâl neu anabl oherwydd clefyd neu fyddardod a achoswyd gan waith*.

Mae taflen **SD6W** *sâl neu anabl oherwydd clefyd neu fyddardod a achoswyd gan waith* yn rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi ynglŷn â, Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ac yn dweud wrthych am fudd-daliadau eraill y gallech eu cael. Gallwch gael y daflen hon o'ch swyddfa leol.

Arian arall y gallech ei gael

Lwfans Enillion Is

Efallai y gallech gael Lwfans Enillion Is os gwnaethoch ddioddef gyntaf o'r afiechyd cyn 1 Hydref 1990, **ac**

- ni allwch ddychwelyd i'ch swydd arferol oherwydd effeithiau eich afiechyd, neu
- ni allwch wneud swydd arall o'r un safon gyda thâl tebyg.

Darllenwch daflen **SD6** i gael gwybod mwy am y budd-dâl hwn. Gwnewch gais cyn gynted ag y bydd eich enillion yn gostwng. Os byddwch yn oedi, gallech golli arian.

Efallai na fyddwch yn cael Lwfans Enillion Is os ydych yn gwneud cais ar gyfer afiechyd wedi ei ychwanegu i'r cynllun Anafiadau Diwydiannol ar neu ar ôl 10 Hydref 1994, neu am estyniad a wnaed i afiechyd ar neu ar ôl 10 Hydref 1994.

Lwfans Gweini Cyson

Efallai y gallwch gael Lwfans Gweini Cyson os asesir eich anabledd yn 95% neu'n fwy. Ystyrir y lwfans hwn yn awtomatig. Nid oes rhaid i chi wneud cais ar wahân. Gallwch gael mwy o wybodaeth am hyn yn nhaflen **SD6**.

Help a chyngor

Os byddwch am gael gwybodaeth gyffredinol am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

- ffoniwch y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau (BEL) i bobl ag anableddau. Y rhif yw **0800 88 22 00**.
  Os oes gennych unrhyw broblemau gyda chlywed neu siarad ac yn defnyddio ffôn testun, ffoniwch **0800 24 33 55**. Os nad oes gennych eich system ffôn testun eich hun, maent ar gael mewn rhai llyfrgelloedd a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth.
- cysylltwch â'ch swyddfa leol. Mae'r rhif ffôn a'r cyfeiriad ar yr hysbyseb yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch dan **Jobcentre Plus** neu **Social Security**.
- cysylltwch â canolfan gynghori fel Cyngor Ar Bopeth.

Help i gwblhau'r ffurflen gais hon

Os hoffech gael help i gwblhau'r ffurflen gais hon neu unrhyw ran ohoni ffoniwch **0800 88 22 00.** Bydd y person y byddwch yn siarad a hwy yn trefnu i rywun eich ffonio yn ôl. Mae'r person fydd yn eich ffonio yn ôl wedi cael ei hyfforddi'n arbennig i'ch helpu i gwblhau'r ffurflenni hyn. Bydd ganddynt gopi o'r ffurflen gais a byddant yn mynd drwyddi gyda chi dros y ffôn. Neu gallant gwblhau ffurflen gais ar eich rhan.

Os byddant yn cwblhau'r ffurflen gais ar eich rhan, byddant yn ei hanfon atoch. Yna gallwch fwrw golwg drosti, ei llofnodi a'i dychwelyd. Gallant anfon ffurflen gais atoch wedi'i chwblhau mewn braille neu brint bras. Byddant yn anfon amlen atoch. Ni fydd angen stamp arni.

Datgysylltwch y dudalen hon a'i chadw er gwybodaeth

Rhan 1 **Ynglŷn â chi**

Dywedwch wrthym amdanoch chi eich hun

Cyfenw neu enw teuluol

Mr/Mrs/Miss/Ms/Dr/Parch

Pob enw arall – yn llawn

Pob cyfenw neu enw teuluol arall rydych wedi cael eich adnabod wrthynt neu rydych yn eu defnyddio nawr. Dylech gynnwys eich enw cyn priodi, pob enw priod blaenorol a phob newid i enw'r teulu.

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Cod Rhif

Pa rif yw hwn?
Ticiwch.

Cartref ☐ Gwaith ☐ Symudol ☐ Ffacs ☐

Dyddiad geni

/ /

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)
Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau oddi wrth yr adran nawdd cymdeithasol neu slipiau cyflog.

Llythrennau Rhifau Llythyren

☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐☐ ☐

Os nad ydych yn gwybod beth yw eich rhif Yswiriant Gwladol, a fu un gennych neu a ydych wedi defnyddio un erioed?

Na ☐

Do ☐

Dywedwch wrthym am unrhyw fanylion personol eraill y credwch y bydd angen i ni eu gwybod yn **Rhan 8 Gwybodaeth arall.**
Er enghraifft, enwau eraill neu gyfeiriadau blaenorol.

Rhan 2 Llenwi'r ffurflen a'i llofnodi ar ran rhywun arall

Ni ddylech lenwi'r adran hon oni bai eich bod wedi llenwi'r ffurflen ar ran yr ymgeisydd oherwydd nad oedd yn gallu ei llenwi ei hun.

Dywedwch wrthym pam nad yw'r ymgeisydd yn gallu llenwi'r ffurflen.

Ticiwch y blychau perthnasol.

Nid yw'r ymgeisydd yn gallu llenwi'r ffurflen oherwydd bod ei salwch neu ei (h)anabledd yn ei gwneud yn amhosibl iddo/iddi wneud hynny. ☐

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi fy mhenodi i gael budd-daliadau'r ymgeisydd ac i ymdrin â materion nawdd cymdeithasol ar ran yr ymgeisydd. ☐

Nid yw'r ymgeisydd yn gallu rheoli ei faterion/ei materion ei hun oherwydd salwch meddwl neu anabledd meddwl. ☐

Unrhyw reswm arall - esboniwch

Dywedwch wrthym amdanoch eich hun

Eich cyfenw neu'ch enw teuluol Mr/Mrs/Miss/Ms/Dr/Parch

Pob enw arall sydd gennych – yn llawn

Eich cyfeiriad

Cod Post

Eich rhif ffôn yn ystod y dydd Cod Rhif

Pa rif yw hwn?
Ticiwch.

Cartref ☐ Gwaith ☐ Symudol ☐ Ffacs ☐

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)
Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau oddi wrth yr adran nawdd cymdeithasol neu slipiau cyflog.

Llythrennau Rhifau Llythyren

● **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 3 **Ynglŷn â'ch gwaith a'ch afiechyd**

26-Apr-06

Dywedwch wrthym am y swydd neu'r swyddi y credwch iddynt achosi eich rhinitis alergaidd

- Dechreuwch gyda'r swydd gyntaf a gorffennwch gyda'r swydd ddiweddaraf y credwch iddi achosi yr afiechyd.
- Os ydych am ddweud wrthym am fwy na 4 swydd, defnyddiwch y gofod yn **Rhan 6 Gwybodaeth arall** neu defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân, gwnewch yn siwr eich bod yn nodi eich enw llawn a rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar bob dalen o bapur ar wahân rydych yn ei defnyddio.

	Cyflogwr 1	**Cyflogwr 2**
Enw a chyfeiriad eich cyflogwr	Cod Post	Cod Post
Rhif ffôn y cyflogwr, os gwyddoch ef	Cod Rhif	Cod Rhif
Rhif cyflogres, staff neu rif cyfeirnod arall		
Gweithle		
Pryd y buoch yn gweithio yno? Os ydych yn ansicr o'r dyddiadau, rhowch amcangyfrif.	O / / I / /	O / / I / /
Beth oedd eich dyletswyddau?		

Rhan 3 **Ynglŷn â'ch gwaith a'ch afiechyd** – parhad

	Cyflogwr 3	**Cyflogwr 4**
Enw a chyfeiriad eich cyflogwr	Cod Post	Cod Post
Rhif ffôn y cyflogwr, os gwyddoch ef	Cod Rhif	Cod Rhif
Rhif cyflogres, staff neu rif cyfeirnod arall		
Gweithle		
Pryd y buoch yn gweithio yno? Os ydych yn ansicr o'r dyddiadau, rhowch amcangyfrif.	O / / I / /	O / / I / /
Beth oedd eich dyletswyddau?		

Rhan 3 **Ynglŷn â'ch gwaith a'ch afiechyd** – parhad

O ba ddyddiad y credwch eich bod yn dioddef o rinitis alergaidd?
Os ydych yn ansicr o'r dyddiad, rhowch amcangyfrif.

/ /

Yn unrhyw un o'r swyddi y dywedoch wrthym amdanynt, a gawsoch eich amlygu ar unrhyw adeg i unrhyw un o'r pethau a restrir ar y dudalen hon neu ar dudalennau 8 ac 9?

					Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddynt ar y pryd er enghraifft, cyflogwr 3
a	**isoseianadau**	**Na** ☐	**Do** ☐	**cyflogwr**	☐
b	**halwynau platinwm**	**Na** ☐	**Do** ☐	**cyflogwr**	☐
c	**mygdarth neu lwch yn deillio o weithgynhyrchu, cludiant neu ddefnydd o gyfryngau caledu (yn cynnwys cyfryngau caledu epocsi-resin) yn seiliedig ar anhydrid ffthalig, anhydrid tetracloroffthalig, anhydrid trimelitig neu triethylenetramin**	**Na** ☐	**Do** ☐	**cyflogwr**	☐
d	**mygdarth yn deillio o ddefnyddio rosin fel fflwcs sodro**	**Na** ☐	**Do** ☐	**cyflogwr**	☐
e	**ensymau proteolytig**	**Na** ☐	**Do** ☐	**cyflogwr**	☐
f	**anifeiliaid yn cynnwys pryfed ac arthropodau a ddefnyddir at ddibenion ymchwil neu addysg neu mewn labordai.** **Noder – mae hyn ychydig yn wahanol i o ar dudalen 8.**	**Na** ☐	**Do** ☐	**cyflogwr**	☐

Rhan 3 **Ynglŷn â'ch gwaith a'ch afiechyd** – parhad

		Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddynt ar y pryd er enghraifft, cyflogwr 3
g	**llwch yn deillio o hau, amaethu, cynaeafu, sychu, trafod, melino, cludo neu storio haidd, ceirch, rhyg, gwenith neu india corn, neu o drafod, melino, cludo neu storio blawd a wneir oddi yno**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
h	**gwrthfiotigau**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
i	**cimetidine**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
j	**llwch pren**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
k	**ispaghula**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
l	**llwch ffa castor**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
m	**ipecaciwana**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
n	**asodicarbonamid**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
o	**anifeiliaid yn cynnwys pryfed ac arthropodau neu eu ffurfiau larfaol, a ddefnyddir at ddibenion difa pla neu dyfu ffrwythau, neu ffurfiau larfaol anifeiliaid a ddefnyddir at ddibenion ymchwil, addysg neu mewn labordai.** **Noder – mae hyn ychydig yn wahanol i f ar dudalen 7.**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
p	**glutaraldehyde**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐
q	**halwynau persylffad neu henna**	**Na** ☐ **Do** ☐ **cyflogwr** ☐

● **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 3 **Ynglŷn â'ch gwaith a'ch afiechyd** – parhad

						Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddynt ar y pryd er enghraifft, cyflogwr 3	
r	**cramenogion neu bysgod neu gynnyrch o'r rhain yn y diwydiant prosesu bwyd**	**Na**	☐	**Do**	☐	**cyflogwr**	☐
s	**lliwiau adweitheddol**	**Na**	☐	**Do**	☐	**cyflogwr**	☐
t	**ffeuen soia**	**Na**	☐	**Do**	☐	**cyflogwr**	☐
u	**llwch te**	**Na**	☐	**Do**	☐	**cyflogwr**	☐
v	**llwch ffa coffi gwyrdd**	**Na**	☐	**Do**	☐	**cyflogwr**	☐
w	**anweddau o weldio dur gloyw**	**Na**	☐	**Do**	☐	**cyflogwr**	☐

Rhan 4 Ynglŷn â thriniaeth feddygol

Rhowch enw a chyfeiriad eich meddyg
Os oes gennych adroddiad meddygol ar eich cyflwr, er enghraifft, adroddiad gan arbenigwr rydych eisoes wedi'i weld, **anfonwch gopi o'r adroddiad gyda'r ffurflen hon.**

Cod Post

Rhif ffôn y meddyg, os gwyddoch ef

Cod Rhif

Efallai y byddwn yn gofyn i chi fynychu archwiliad meddygol gan feddyg neu arbenigwr.

Os oes gennych broblemau o ran mynychu archwiliad meddygol, dywedwch wrthym amdanynt yn y fan hon.

A ddywedodd unrhyw feddyg arall wrthych erioed bod eich rhinitis alergaidd wedi ei achosi gan eich swydd?
Er enghraifft, gallai hyn fod yn feddyg yn y gwaith.

Na ☐

Do ☐ Dywedwch wrthym am y meddyg hwn.

Enw a chyfeiriad y meddyg

Cod Post

Rhif ffôn y meddyg, os gwyddoch ef

Cod Rhif

● **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 4 **Ynglŷn â thriniaeth feddygol** – parhad

A fuoch i ysbyty neu glinig am driniaeth o ganlyniad i'r ddamwain?

Na ☐ Ewch i **Rhan 5**.

Do ☐ Dywedwch wrthym am bob ysbyty neu glinig y buoch iddynt oherwydd y ddamwain. Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy na 2 ysbyty neu glinig, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Gwnewch yn siwr eich bod yn nodi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar bob dalen o bapur ar wahân rydych yn ei defnyddio.

	Ysbyty neu glinig 1	**Ysbyty neu glinig 2**
Enw a chyfeiriad yr ysbyty neu'r clinig	Cod Post	Cod Post
Adran neu ward		
Rhif cyfeirnod neu rif derbyn		
Enw'r arbenigwr os gwyddoch ef		
Dyddiadau'r driniaeth	O / / I / /	O / / I / /
	O / / I / /	O / / I / /
	O / / I / /	O / / I / /
A oeddech yn glaf allanol neu'n glaf mewnol?	Claf allanol ☐ Claf mewnol ☐	Claf allanol ☐ Claf mewnol ☐

Rhan 5 Ynglŷn â cheisiadau cynharach am Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Ydych chi wedi gwneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer y ddamwain hon erioed o'r blaen neu ar gyfer unrhyw ddamwain ddiwydiannol arall neu ar gyfer afiechyd diwydiannol?

Na ☐ Ewch i **Rhan 6**.

Do ☐ Dywedwch wrthym am y pensiynau, y budd-daliadau neu'r lwfansau.

Beth yw enw'r afiechyd diwydiannol, neu ddyddiad y ddamwain ddiwydiannol y gwnaethoch gais amdano/amdani?

Pryd gwnaethoch gais?
Os ydych yn ansicr, rhowch amcangyfrif.

Os oeddech yn byw mewn cyfeiriad gwahanol pan wnaethoch gais, nodwch y cyfeiriad neu gyfeiriadau. Dylech gynnwys cyfeiriadau dramor.

Cais 1	**Cais 2**
/ /	/ /
Cod Post	Cod Post

- Os ydych am ddweud wrthym am fwy na 2 gais, defnyddiwch y gofod yn **Rhan 8 Gwybodaeth arall**.

Rhan 6 Ynglŷn â budd-daliadau a hawliadau eraill

Ydych chi'n cael pensiwn neu fudd-daliadau eraill neu lwfansau o unrhyw adran o'r llywodraeth oherwydd eich anabledd?
Ticiwch **Ydw** os ydych wedi gwneud cais am un o'r rhain ac yn aros i glywed amdano.
Ticiwch **Ydw** hefyd os ydych wedi cael un o'r rhain yn y gorffennol oherwydd eich anabledd ond nid ydych yn ei gael ar hyn o bryd.

Na ☐

Ydw ☐ Dywedwch wrthym am bensiynau, budd-daliadau neu lwfansau.

	Budd-dal 1	**Budd-dal 2**
Enw'r pensiwn, y budd-dal neu'r lwfans		
Rhif cyfeirnod neu rif pensiwn, os gwyddoch ef		

	Budd-dal 3	**Budd-dal 4**
Enw'r pensiwn, y budd-dal neu'r lwfans		
Rhif cyfeirnod neu rif pensiwn, os gwyddoch ef		

- **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 6 **Ynglŷn â budd-daliadau a hawliadau eraill** – parhad

A ydych yn derbyn Pensiwn Anabledd Rhyfel ar gyfer anaf neu afiechyd tra roeddech yn y Lluoedd Arfog?

Na ☐

Ydw ☐ Dywedwch wrthym am y pensiwn, budd-dal neu Iwfans.

Enw'r pensiwn, budd-dal neu Iwfans

Rhif Yswiriant Gwladol (YG), os ydych yn ei wybod.

Llythrennau Rhifau Llythyren

neu

Rhif cyfeirnod Pensiwn Rhyfel, os ydych yn ei wybod.

Beth yw'r anaf neu afiechyd?

Beth yw canran anabledd o ganlyniad i'r anaf neu afiechyd hwn fel a aseswyd gan yr Asiantaeth cyn Filwyr?

%

A ydych yn derbyn Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog ar gyfer anaf neu afiechyd tra roeddech yn y Lluoedd Arfog?

Na ☐

Ydw ☐ Dywedwch wrthym am y taliad.

Rhif Yswiriant Gwladol (YG), os ydych yn ei wybod.

Llythrennau Rhifau Llythyren

neu

Rhif cyfeirnod Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, os ydych yn ei wybod.

Beth yw'r anaf neu afiechyd?

Beth yw eich lefel tariff ar gyfer yr anaf neu afiechyd hwn fel a aseswyd gan yr Asiantaeth cyn Filwyr?

Rhan 6 **Ynglŷn â budd-daliadau a hawliadau eraill** – parhad

Ydych chi, neu'ch partner os oes gennych un, yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Pensiwn?

Ticiwch **Ydym** os ydych chi neu'ch partner wedi
- hawlio Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith, neu wedi
- gwneud cais am Gredyd Pensiwn.

Hefyd, ticiwch **Ydym** os ydych chi'n aros i glywed am unrhyw un o'r rhain.

Ystyr *partner* yw'r
- person rydych yn briod â hwy, neu'r person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- partner sifil neu person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

Na ☐

Ydym ☐ Dywedwch wrthym am hyn.

Ar ba ddyddiad wnaethoch chi neu'ch partner hawlio Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith, neu ar ba ddyddiad wnaethoch chi wneud cais am Gredyd Pensiwn?

/ /

Pa swyddfa leol neu ganolfan bensiwn sy'n delio â'r hawliad neu'r cais?

Cod Post

Pwy sy'n cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Pensiwn, neu bwy sy'n aros i glywed am hyn?

Chi ☐

Eich partner ☐ Dywedwch wrthym am eich partner.

Eu cyfenw neu enw teuluol.

Mr/Mrs/Miss/Ms/Dr/Parch

Eu henwau eraill

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG), os gwyddoch ef

Llythrennau Rhifau Llythyren

Os nad ydych yn gwybod eu rhif YG, nodwch eu dyddiad geni.

/ /

● **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 7 Gwneud taliadau i chi

Fel arfer byddwn yn talu Budd-dal Anableddau Anafiadau Diwydiannol yn uniongyrchol i mewn i gyfrif. Dyma'r ffordd fwyaf diogel o'ch talu ac mae'n caniatáu i chi ddewis sut a phryd y cewch eich arian. Gallwch ddefnyddio banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall. Mae'r rhan fwyaf o gyfrifon yn eich caniatáu i wneud arbedion ar rai o'ch biliau drwy dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol. Mae'n bosibl y gallwch ddefnyddio peiriant arian parod, a fydd fel arfer yn golygu y gallwch gael eich arian ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Gellir defnyddio'r mwyafrif o'r peiriannau hyn am ddim, ond gall rhai ohonynt codi tâl i chi am godi eich arian. Os felly, byddwch yn cael eich rhybuddio gan neges ar y sgrîn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi ganslo eich trafodiad heb orfod talu tâl. Ceir trefniadau gyda rhai banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n caniatáu i chi gasglu arian parod o lawer o'u cyfrifon dros y cownter mewn swyddfeydd post.

A – Taliad yn uniongyrchol i gyfrif

Sut byddwch yn cael eich talu
Caiff eich budd-dal ei dalu i mewn i'r cyfrif bob pythefnos oni fyddwch yn dewis cael eich talu bob 4 wythnos neu bob 13 wythnos.

Darganfod faint sy'n cael ei dalu i mewn i'r cyfrif
Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan gaiff y taliad cyntaf ei wneud a faint fydd y swm. Dylai swm pob taliad, ar ôl yr un cyntaf, fod yr un fath oni fydd newid yn eich amgylchiadau. Byddwn yn dweud wrthych pryd bynnag y byddwn yn gwybod y bydd newid yn y swm y byddwn yn ei dalu i mewn i'ch cyfrif.

Gallwch wirio'ch taliadau budd-dal ar gyfriflenni eich cyfrif. Bydd eich cyfriflenni fel arfer yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl y taliadau sydd oddi wrthym ni. Os ydych yn meddwl bod eich taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu.

Penodi rhywun i gasglu eich budd-dal
Efallai gallwch benodi rhywun arall i gasglu eich budd-dal ar eich rhan yn rheolaidd, os dymunwch. Am gymorth gyda hyn cysylltwch â'ch banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall fel Swyddfa'r Post® neu Undeb Credyd.

Os na chaiff digon o arian ei dalu i mewn i'r cyfrif
Os na fyddwn yn talu digon o arian i mewn i'r cyfrif, byddwn yn gwneud taliad arall neu'n ychwanegu'r arian sy'n ddyledus i chi at eich taliad nesaf. Byddwn yn cysylltu â chi i ddweud wrthych beth y byddwn yn ei wneud.

Weithiau byddwn yn talu gormod o arian i mewn i'ch cyfrif ac efallai cewch eich gordalu
Os mai'r rheswm am hyn yw'r ffordd y mae'r system yn gweithio ar gyfer gwneud taliadau yn uniongyrchol i mewn i gyfrif, mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian nad oes gennych hawl i'w gael. Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni sy'n golygu bod hawl gennych i gael llai o arian ond efallai na allwn newid y swm sydd wedi'i anfon allan eisoes. Byddwn yn cysylltu â chi yn gyntaf os byddwn yn bwriadu adennill unrhyw arian.

Beth i'w wneud nawr
I ddweud wrthym am y cyfrif yr ydych yn dymuno ei ddefnyddio ar gyfer eich Budd-dal Anableddau Anafiadau Diwydiannol, **ewch i Ran B**.

neu

Os nad oes gennych cyfrif addas eisoes, **ewch i Ran Ch.**

Rhan 7 **Gwneud taliadau i chi** – parhad

B – Ynglŷn â'r cyfrif rydych am ei ddefnyddio

Ticiwch y blwch hwn os ydych yn cytuno i gael eich talu yn uniongyrchol i mewn i gyfrif ac yn deall y wybodaeth yn Rhan A ynglŷn â'ch gordalu. ☐

Rhowch fanylion eich cyfrif ar y dudalen nesaf. Rhaid i chi lenwi POB blwch gan gynnwys rhif cofrestr neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes gennych un.
Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar y llyfr siec, paslyfr neu gyfriflenni. Os nad ydych yn siwr am y manylion, gofynnwch i'r banc, cymdeithas adeiladu, neu ddarparwr cyfrif arall.

Yn enw neu enwau pwy y mae'r cyfrif?

Noder:
- Dim ond yn eich enw chi y gall cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post® fod.
- Ystyr *partner* yw'r
  - person rydych yn briod â hwy, neu'r person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
  - partner sifil neu person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.
- Drwy roi tic yn y blwch ar gyfer cyfrif sy'n cynnwys enw'r person sy'n gweithredu ar eich rhan, rydych yn cadarnhau y byddwch yn eu hawdurdodi i ddefnyddio'r arian yn y ffordd rydych yn dweud wrthynt am wneud, neu rydych yn berson penodedig yn gweithredu ar ran y cwsmer.

Rhowch dic yn un o'r blychau

☐ Yn eich enw chi

☐ Yn enw eich partner

☐ Yn eich enw chi ac enw'ch partner

☐ Yn enw'r person sy'n gweithredu ar eich rhan

☐ Yn eich enw chi ac enw'r person sy'n gweithredu ar eich rhan.

Ym mha enw neu enwau mae'r cyfrif?
Ysgrifennwch yr enw neu'r enwau fel y maent yn ymddangos ar y llyfr siec, y paslyfr neu'r gyfriflen.

Enw llawn y banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall

Cod Didoli – y banc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall
Rhowch bob un o'r chwe rhif, er enghraifft: 12-34-56.

☐☐ – ☐☐ – ☐☐

Rhif y cyfrif
Mae hwn yn 7 i 10 rhif o hyd.

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Rhagor o wybodaeth os yw'n gyfrif cymdeithas adeiladu

Rhif cofrestr neu gyfeirnod y Gymdeithas Adeiladu

Mae rhai cyfrifon cymdeithasau adeiladu yn defnyddio rhif cofrestr neu gyfeirnod. Mae'r rhif hwn ar y paslyfr. Gall y rhif cofrestr neu gyfeirnod gynnwys llythyrau a rhifau a gall fod hyd at 18 llythyren/rhif o hyd. Os nad ydych yn siwr a oes gan y cyfrif rif cofrestr neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

Mae'n bosibl eich bod yn derbyn budd-daliadau neu hawliadau eraill nad ydynt yn cael eu talu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif ar hyn o bryd. Os ydych bellach yn cytuno iddynt gael eu talu i mewn i'r cyfrif hwn, rhowch enwau'r budd-daliadau neu hawliadau i ni.

● **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

C – Pa mor aml gallaf gael fy nhalu

Ni fydd cael eich taliad i fewn i gyfrif yn effeithio pa mor aml rydych yn cael eich talu.

Pa mor aml ydych yn dymuno i'ch budd-dal gael ei dalu?

- Pob 4 wythnos ☐
- Pob 13 wythnos ☐
- Pob wythnos ☐

Os ydych yn dymuno cael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch swyddfa leol agosaf.

CH – Os nad ydych wedi cwblhau adran B

Darllenwch y nodiadau isod a thiciwch Blwch 1 neu Blwch 2.

Os oes gennych gyfrif ond nad ydych am ei ddefnyddio, er enghraifft cyfrif ar y cyd, bydd unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu yn eich helpu i agor cyfrif sy'n fwy addas i chi. Cofiwch ofyn p'un a yw eu cyfrifon yn caniatáu i chi gael eich arian o Swyddfa'r Post®, os yw hyn yn bwysig i chi.

- **Cyfrif banc sylfaenol**
  Os ydych chi wedi cael trafferth i agor cyfrif cyfredol, neu os ydych yn poeni am fynd i orddrafft, gallech holi unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu yngl_n ag agor cyfrif banc sylfaenol. Mae'r cyfrifon hyn ar gael ym mhob banc mawr ac maent yn cynnig gwasanaeth bancio am ddim ond ni chynigir gorddrafft. Gallwch ddefnyddio'r cyfrifon hyn i dalu arian i mewn, i dalu biliau'n awtomatig ac i godi arian parod. Mae llawer o gyfrifon banc sylfaenol hefyd yn gadael i chi godi arian parod o ganghennau swyddfa'r post.
- **Cyfrifon eraill**
  Fel arall, gellir ei dalu i mewn i rai cyfrifon Undeb Credyd neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®. Efallai y bydd gan y cyfrifon hyn cyfyngiadau ar y gwasanaethau a ddarperir.

Beth i'w wneud nawr

Ticiwch y blwch sy'n berthnasol i chi.

Blwch 1

Rwy'n bwriadu agor cyfrif. ☐

Bydd unrhyw fanc, cymdeithas adeiladu neu ddarparwr cyfrif arall yn eich helpu i agor cyfrif. Os hoffech gael eich arian o Swyddfa'r Post®, sicrhewch bod y cyfrif yn caniatáu i chi wneud hyn. **Os ydych am i ni eich talu i mewn i gyfrif, rhowch fanylion y cyfrif i ni cyn gynted ag y byddwch wedi'u cael.**

Blwch 2

Hoffwn wybodaeth am ffyrdd eraill y gallaf gael fy nhalu ☐

Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch taliad. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth yn y cyfamser ynglŷn ag agor cyfrif, cysylltwch â ni.

Cwblhewch y ffurflen gais a'i hanfon atom nawr.
Peidiwch ag aros nes y byddwch wedi agor cyfrif.

● **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 8 Gwybodaeth arall

Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym am unrhyw beth arall y credwch y byddai angen i ni ei wybod.
Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Sicrhewch eich bod yn nodi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar bob dalen rydych yn ei defnyddio.

Nodwch gyfeiriad eich Swyddfa Bost® leol.

Cod Post

Rhan 9 **Datganiad**

- **Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- **Rwy'n deall** os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn fwriadol, y gellir fy erlyn neu gallaf wynebu camau gweithredu eraill.
- **Rwy'n deall** bod yn rhaid i mi roi gwybod i'r swyddfa sy'n talu fy mudd-dal ar unwaith am unrhyw beth a allai effeithio ar fy hawl i gael y budd-dal hwnnw, neu swm y budd-dal hwnnw.
- **Rwy'n cytuno y gall**
  – yr Adran Gwaith a Phensiynau
  – unrhyw sefydliad sy'n cynghori'r Adran
  – unrhyw feddyg sydd â chontract gyda'r Adran ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol

  ofyn i unrhyw berson neu sefydliad y cyfeirir atynt ar y ffurflen hon am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i ymdrin â'r
  – cais hwn am fudd-dal, neu
  – unrhyw gais i edrych eto ar y cais hwn ac y gellir rhoi'r wybodaeth i'r meddyg neu'r sefydliad hwnnw neu i'r Adran.
- **Rwyf hefyd yn deall**
  y gall yr Adran ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddi nawr neu y gallai ei chael yn y dyfodol er mwyn penderfynu p'un a oes gennyf hawl i gael
  – y budd-dal rwyf yn gwneud cais amdano
  – unrhyw fudd-dal arall neu hawl arall rwyf yn gwneud cais amdano
  – unrhyw fudd-dal neu hawl arall y gallaf wneud cais amdano yn y dyfodol.

Dyma fy nghais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Llofnod

Dyddiad / /

Rhan 10 Beth i'w wneud nawr

Sicrhewch eich bod wedi

- ateb unrhyw gwestiynau sy'n berthnasol i chi
- llofnodi'r ffurflen hon
- cynnwys eich adroddiad meddygol. Cofiwch, peidiwch â threfnu i gael adroddiad meddygol newydd yn arbennig ar gyfer yr hawliad hwn.

Cofiwch

Anfonwch y ffurflen hawlio hon i'ch swyddfa leol cyn gynted â phosibl. Os byddwch yn oedi, gallech golli arian. Gallwch ddod o hyd i'r cyfeiriad yn yr hysbyseb yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus** neu **Social Security**. Gallwch gael amlen o Swyddfa'r Post®. Ni fydd angen stamp arnoch.

Rhan 11 Beth fydd yn digwydd nesaf

- Gellir talu'r budd-dal y gallwch ei gael o ganlyniad i'r hawliad hwn yn gynt os byddwch yn ateb pob cwestiwn ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un.
  Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni ond efallai y bydd oedi wrth dalu'r budd-dal y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn.
- Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud ein bod wedi derbyn eich hawliad.
- Bydd swyddog gwneud penderfyniadau yn edrych ar eich hawliad.
  Swyddogion gwneud penderfyniadau yw'r bobl sy'n penderfynu a yw'r gyfraith yn dweud bod gennych hawl i gael budd-dal ai peidio. Y maent hefyd yn penderfynu faint o fudd-dal y mae'r gyfraith yn ei ddweud y mae gennych hawl iddo.
- Er mwyn helpu'r swyddog gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniad ynglŷn â'ch cais, efallai y bydd yn rhaid i ni gael mwy o wybodaeth neu wneud ymholiadau ynglŷn â'ch cais. Er enghraifft, efallai y byddwn yn ysgrifennu at unrhyw gyflogwr, meddyg neu ysbyty yr ydych wedi dweud wrthym amdanynt yn y ffurflen hon.
- Os bydd y swyddog gwneud penderfyniadau yn penderfynu eich bod wedi gweithio mewn swydd sy'n debygol o fod wedi achosi eich afiechyd, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi ddod am archwiliad meddygol. Os bydd hyn yn digwydd byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych ble a phryd y cynhelir yr archwiliad. Os nad ydych yn ddigon iach i deithio neu os ydych yn yr ysbyty, byddwn yn gofyn i'r meddyg ddod atoch chi.
- Os gallwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud
  – faint o arian y gallwch ei gael
  – mwy wrthych am y budd-dal.
- Os na allwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, byddwn yn ysgrifennu atoch ddweud y rheswm wrthych a'r hyn y gallwch ei wneud os ydych yn anghytuno.

- **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 12 Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu gwybodaeth ar gyfer delio â nawdd cymdeithasol, cynnal plant, materion yn ymwneud â niwed trwy frechiad, cyflogaeth a hyfforddiant, polisi pensiynau preifat, cynllunio ar gyfer ymddeol a'r Cynllun Cymorth Ariannol. Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch yn dibynnu ar y rheswm dros eich busnes gyda ni, ond fe allwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw un o'r dibenion hyn.

Gallwn wirio gwybodaeth amdanoch yn erbyn gwybodaeth arall sydd gennym. Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bobl eraill a rhai sefydliadau eraill. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill, fel mae'r gyfraith yn caniatau, er mwyn:

- edrych ar gywirdeb y wybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus mewn ffyrdd eraill, ac
- at defnyddio ymchwil neu ystadegau.

Mae'r sefydliadau eraill hyn yn cynnwys adrannau eraill y llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector preifat fel banciau a sefydliadau a allai fenthyg arian i chi. Ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth amdanoch i unrhyw un y tu allan i'n hadran oni fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau yw'r rheolwr data at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ba wybodaeth sydd gennym amdanoch, neu'r ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth, cysylltwch â ni. Gallwch gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd a gofyn am daflen **GL33W** *Deddf Diogelu Data 1998 – Mae'n effeithio arnoch chi*. Neu gallwch gael copi o'r daflen oddi ar ein gwefan. Y cyfeiriad yw **www.dwp.gov.uk**